



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 116/2013  
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2013

# Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

- Cynulleidfa** Penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; yr heddlu; athrawon sy'n gofalu am Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD); awdurdodau lleol (Allau), undebau athrawon ac eraill; disgyblion; rhieni/gofalwyr; sefydliadau cymorth i rieni; awdurdodau esgobaethol a sefydliadau gwirfoddol.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar ddefnyddio hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd.
- Camau i'w cymryd** Allau, cyrrff llywodraethu ysgol (CLI), staff ysgol, ac yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i'r heddlu roi sylw i rannau perthnasol o'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â hysbysiadau cosb, yn cynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyflwyno hysbysiad cosb o dan adran 444A o Ddeddf Addysg 1996.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Tîm Lles Disgyblion  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: WELLBEINGshare@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
Presenoldeb yn yr ysgol	4
Rôl yr ysgol i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol	6
Anghenion dysgu ychwanegol	7
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	8
Rhagor o wybodaeth	8
<b>Cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol</b>	<b>9</b>
Rhiant/gofalwr	9
Ysgol	10
Awdurdod lleol	10
Gweithio ar sail consortia	10
Plant sy'n derbyn gofal	11
<b>Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb</b>	<b>12</b>
Rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol	12
Rolau a chyfrifoldebau ysgolion	12
Rolau a chyfrifoldebau'r heddlu	13
Codau ymddygiad lleol	13
<b>Cyflwyno hysbysiadau cosb</b>	<b>15</b>
Pwy sy'n gallu cyflwyno hysbysiad cosb?	15
Pwy sy'n gallu derbyn hysbysiad cosb?	15
Hysbysu'r rhiant/gofalwr yn ffurfiol	15
Amgylchiadau lle gellir cyflwyno hysbysiad cosb	16
Unwaith y bydd hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno	17
Gweinyddu'r cynllun hysbysiadau cosb	18
Cadw derbyniadau a chasglu referniw	18
Hysbysiadau cosb fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol	19

<b>Atodiad A: Cod ymddygiad lleol</b>	<b>20</b>
<b>Atodiad B: Pro-forma hysbysiad cosb</b>	<b>24</b>
<b>Atodiad C: Enghreifftiau penodol y mae awdurdodau lleol yn Lloegr wedi eu defnyddio mewn codau ymddygiad lle gallai hysbysiadau cosb gael eu cyflwyno</b>	<b>27</b>

## Cyflwyniad

Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i *Gwella ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2012)<sup>1</sup> anelwn at gryfhau ein dulliau o gynnwys a gwarchod. Cytunwyd i ymgynghori ar ddeddfwriaeth i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am golli ysgol. Wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013. Bydd y rheoliadau'n dod i rym ym Medi 2013.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol (ALL), cyrff llywodraethu ysgol, staff ysgol a'r heddlu roi sylw i rannau perthnasol o'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â hysbysiadau cosb, yn cynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyflwyno hysbysiad cosb o dan adran 444A o Ddeddf Addysg 1996.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid rhoi sylw i'r canllawiau hyn ac mae disgwyl iddynt gael eu dilyn oni bai bod rheswm da dros wyro oddi wrthynt.

Un opsiwn o blith nifer o wahanol ymyriadau sydd ar gael i hybu gwell presenoldeb yn yr ysgol yw hysbysiadau cosb. Mae mynychu'r ysgol yn hanfodol i wella rhagolygon addysgol plant ac osgoi'r perygl o ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol.

Bydd y mesurau hysbysiad cosb yn helpu ALLau ac ysgolion i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau trwy sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gan hynny, mae'n bwysig bod y bobl broffesiynol sy'n gysylltiedig â defnyddio gweithdrefnau hysbysiad cosb yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o strategaethau a chymorth a fydd yn addas wrth ymgysylltu â gwahanol rieni/gofalwyr.

Disgrifir y broses hysbysiad cosb yn fanwl yn yr adran 'Cyflwyno hysbysiadau cosb' o'r canllawiau hyn a cheir enghreifftiau o arfer da arall i gynorthwyo'r rhai sy'n gweithredu'r broses.

Hefyd dylai ALLau ac ysgolion ddefnyddio data i'w helpu i fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol ac addas yw'r defnydd a wneir ganddynt o hysbysiadau cosb.

Mae hysbysiadau cosb yn opsiwn ychwanegol y gellir ei ddefnyddio mewn ystod eang o strategaethau ymyrraeth a chymorth i helpu rhieni/gofalwyr a disgyblion. Dylai ysgolion a Gwasanaeth Lles Addysg ALL ystyried pob achos yn unigol.

Bydd hysbysiadau cosb yn fwyaf effeithiol er mwyn mynd i'r afael ag achosion lle nad yw colli'r ysgol yn arfer sydd wedi ymwreiddio, yn arbennig ar gyfer rhai grwpiau oed neu dros gyfnodau amser penodol fel disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn y cyfnod yn arwain at gyfnodau arholiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion pan rhoddir rhybudd o ddirwy, mae hyn yn ddigon i godi ymwybyddiaeth o ddifrifoldeb presenoldeb disgyblion. Gall hyn, yn ei hun, arwain at wella lefelau presenoldeb.

Nid yw'r canllawiau'n gyflawn a bydd angen i benderfyniadau a wneir ystyried amgylchiadau achosion unigol.

## **Presenoldeb yn yr ysgol**


Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar bob rhiant/gofalwr i sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Pan fo plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, maent yn cymryd cam pwysig tuag at gyrraedd eu potensial llawn, a rhoddir y cyfle gorau iddynt ddysgu pethau newydd a datblygu eu sgiliau. Mae plant sy'n colli'r ysgol yn aml yn gallu bod ar ôl gyda'u gwaith ac nid ydynt yn llwyddo cystal mewn arholiadau.


Po fwyaf o amser mae plentyn yn ei dreulio yng nghwmni plant eraill, boed yn yr ystafell ddosbarth neu fel rhan o dîm neu glwb ysgol, po fwyaf o gyfle fydd ganddo neu ganddi i wneud ffrindiau a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Mae hyn yn hybu sgiliau cymdeithasol, hyder a hunan barch.

Mae angen i bresenoldeb yn yr ysgol barhau'n flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod pant a phobl ifanc yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial. Mae'r cysylltiadau ystadegol rhwng presenoldeb a chyflawniad yn gryf iawn fel y dengys y tablau canlynol.

**Canran o ddisgyblion yn cyflawni'r DPC yng Nghyfnod Allweddol 2 yn erbyn cyfraddau absenoldeb cyffredinol, 2009–2011**



**Canran o ddisgyblion yn cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A\*–C mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4 yn erbyn cyfraddau absenoldeb cyffredinol, 2009–2011**



Yn ogystal â helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial, mae mynd ati'n weithgar i fynd ar ôl achosion o ddisgyblion sy'n colli'r ysgol yn elfen allweddol i'w gwarchod a'u helpu i osgoi bod yn rhan o weithgarwch troseddol. Mae disgyblion sy'n colli'r ysgol yn rheolaidd yn llawer mwy tebygol o droseddu.

## **Rôl yr ysgol i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol**

Ymgysylltu effeithiol yw'r sail ar gyfer yr holl waith a wneir gyda rhieni/gofalwyr. Mae parchu hawliau rhieni/gofalwyr a'u helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn allweddol i hyn. Pan fo staff ysgol yn sylwi bod patrwm o golli'r ysgol yn dod i'r amlwg, mae'n hanfodol eu bod yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cefnogi addysg, cymdeithasol ac iechyd i sicrhau bod yr ymyrraeth fwyaf addas ac effeithiol ar gael i'r disgybl a'r rhieni/gofalwyr.

Dylai ysgolion ac ALLau weithio gyda rhieni/gofalwyr a disgyblion gymaint ag sy'n bosibl i hybu presenoldeb a chynnig unrhyw gymorth ychwanegol angenrheidiol, cyn cymryd camau i erlyn.

Mae defnyddio ymyrraeth wedi ei thargedu a chymorth mewn meysydd o angen penodol yn gallu bod yn effeithiol iawn i wella presenoldeb, yn arbennig wrth weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Lles Addysg a'r ALL.

Gall colli'r ysgol fod yn arwydd o broblemau sylweddol gartref ac mae angen i'r ysgol sicrhau eu bod yn mynd ati'n weithgar i ganfod y rhesymau pam fod y plentyn yn colli'r ysgol a gwneud y cysylltiadau priodol â sefydliadau allanol.

Rhaid i ysgolion alw'r gofrestr presenoldeb ddwywaith y dydd: ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y pŵn. Mae'r gofrestr yn dangos a yw'r disgybl yn bresennol, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol sydd wedi eu cymeradwyo y tu allan i safle'r ysgol neu'n absennol. Hefyd, pan fo disgybl o oedran ysgol gorfodol, rhaid i'r gofrestr ddangos a yw'r absenoldeb wedi ei awdurdodi gan yr ysgol ai peidio.

Absenoldeb wedi ei awdurdodi yw pan fo'r ysgol naill ai wedi cymeradwyo ymlaen llaw i'r disgybl fod yn absennol o'r ysgol, neu os yw'r ysgol wedi derbyn bod esboniad a gynigiwyd wedi hynny, yn gyfiawnhad boddhaol am fod yn absennol. Ysgolion yn unig yn hytrach na rhieni/gofalwyr sy'n gallu awdurdodi absenoldeb,



a rhaid i ysgolion ystyried a yw'r rheswm am fod yn absennol yn rhesymol cyn gwneud hynny. Dylid cofnodi unrhyw absenoldeb nas awdurdodwyd gan yr ysgol fel absenoldeb anawdurdodedig.

## **Anghenion dysgu ychwanegol**

Mewn rhai achosion, gallai problemau presenoldeb fod yn gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n ddyletswydd statudol ar gyrff llywodraethu ysgol i ymdrechu hyd eithaf eu gallu i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol ar gael ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae dyletswyddau penodol ar ALLau mewn perthynas ag adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion ymddygiad, cymdeithasol ac emosiynol. Mae canllawiau statudol ar adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion ymddygiad, cymdeithasol ac emosiynol, yn *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004)<sup>2</sup>. Rhaid i ysgolion ac ALLau roi sylw i'r canllawiau hyn.

Cyn mynd ati i gyflwyno hysbysiad cosb dylai ysgolion ac ALLau ystyried p'un ai a yw problemau presenoldeb yn gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig y disgybl. Dylai ysgolion a gynhelir allu dangos eu bod wedi ymdrechu hyd eithaf eu gallu, gan weithredu ar y cyd â'r ALL os yw'n briodol, i ddarparu'n briodol ar gyfer anghenion y disgybl. Gallai hyn gynnwys camau i gynorthwyo'r disgybl trwy Weithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yng Nghod Ymarfer Cymru Anghenion Dysgu Ychwanegol neu ofyn i'r ALL gynnal asesiad statudol o anghenion y disgybl. Fel arfer mae adnabod a chamau ymyrraeth cynnar, asesiad cywir a threfnu bod darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y disgybl yn arwain at ganlyniadau gwell.

Nid yw hysbysiadau cosb, ac ni ddylid eu defnyddio, fel dewis amgen yn lle camau priodol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y disgybl.

## **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau plant o dan 18 oed. Yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth gyflwyno cynigion polisi a deddfwriaeth newydd.

Wrth ystyried y cynigion hyn, rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn, e.e. hawl y plentyn i gael addysg. Mae'r Confensiwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i roi llais i blant mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y safbwyntiau a'r syniadau a fynegir gan blant wrth wneud penderfyniadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar eu bywydau.

## **Rhagor o wybodaeth**

Mae rhagor o wybodaeth am strategaethau i gefnogi presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ar gael yn y canllawiau canlynol gan Lywodraeth Cymru.

*Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan* (2011)  
[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/framework/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/framework/?skip=1&lang=cy)

*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* (2006)  
[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy)

## Cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol

Mae sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn faes gwaith allweddol sy'n dibynnu ar sefydlu a defnyddio perthynas waith agos rhwng rhieni/gofalwyr, disgyblion, ysgolion, Gwasanaeth Lles Addysg yr ALI a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol, addysgol a gofal iechyd.

Un elfen allweddol o unrhyw berthynas waith lwyddiannus yw dealltwriaeth glir o rôl a chyfrifoldebau pob unigolyn, a gan hynny, nod y rhan hon yw esbonio rolau a chyfrifoldebau'r bobl hynny sy'n ymwneud â mynd i'r afael â phroblemau presenoldeb.

### Rhiant/gofalwr

O dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, mae'r rhiant/gofalwr yn gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i oed, gallu a dawn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig y gallai fod gan y plentyn. Gallai hyn fod trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd, darpariaeth o fath arall neu trwy ddewis eu haddysgu gartref (gall y rhiant/gofalwr ddewis darparu addysg ar gyfer ei blentyn).

I bwrpas deddfwriaeth addysg, ceir diffiniad o'r term rhiant/gofalwr yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Ystyr 'rhiant' yw pob rhiant/gofalwr naturiol, boed wedi priodi ai peidio; mae'n cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn er nad yw'n rhiant naturiol (fel y diffinnir yn Neddf Plant 1989), ac unrhyw un sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc er nad yw'n rhiant naturiol. Mae gofalu am blentyn neu berson ifanc yn golygu bod y sawl y mae'r plentyn yn byw gydag ef neu hi ac sy'n gofalu am y plentyn, waeth beth yw'r berthynas â'r plentyn, yn cael ei ystyried yn rhiant mewn cyfraith addysg. Am ragor o wybodaeth edrychwch ar "*Rhieni*" a "*Cyfrifoldeb Rhiant*" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)<sup>3</sup>.

Cyflwynodd adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996 (a gyflwynwyd gan adran 23 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003) hysbysiadau cosb fel dewis amgen yn hytrach nag erlyn o dan adran 444. Mae'n bosibl i rieni/gofalwyr osgoi cael eu herlyn am drosedd o dan adran 444 trwy dalu cosb.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i gael hysbysiad cosb yn gyntaf cyn symud ymlaen i erlyn.

## Ysgol

Rhaid i ysgolion o dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 alw cofrestr presenoldeb ddwywaith y dydd: ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y pŵn. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig i gefnogi unrhyw ymyriadau statudol y gallai fod eu hangen. Dylid nodi ei bod yn drosedd peidio â chadw cofrestr cywir. Mae canllawiau manwl ar godau presenoldeb ar gael yn 'Atodiad 4.i' o ddogfen ganllaw *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)<sup>4</sup>.

## Awdurdod lleol

O dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd ar ALLau i sicrhau bod plentyn y maent yn gyfrifol amdano'n cael addysg addas naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall. Mae rhagor o wybodaeth yn 'Adran 4' o'r ddogfen ganllaw *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*.

Ym Medi 2009 daeth adran 436A<sup>5</sup> o'r Ddeddf Addysg 1996 i rym. Yn ôl yr adran hon rhaid i ALLau wneud trefniadau i'w galluogi i sefydlu (cyn belled ag y mae'n bosibl gwneud hynny) enwau plant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn cael 'addysg addas'.

Dylai'r broses o weithredu'r ddyletswydd o dan adran 436 gael ei hintegreiddio â'r ystod ehangach o ddyletswyddau sydd ar ALLau, yn cynnwys Deddf Plant 2004 a *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* Llywodraeth Cymru sy'n ceisio gwella canlyniadau a diogelu a hybu lles plant. Dylai'r ddyletswydd newydd gryfhau ac ategu'r dyletswyddau presennol hyn.

## Gweithio ar sail consortia

Efallai bydd ALLau yn awyddus i ystyried sut y gallant ddatblygu ac ymgynghori ar eu cod ymddygiad ar sail consortia. Mae gan y dull hwn y fantais o greu mwy o gysondeb, lleihau dyblygu ymdrechion a sicrhau eglurder o ran arferion trawsffiniol.

Byddai hyn hefyd yn helpu i gadarnhau gwaith consortia sydd eisoes yn cael ei wneud i wella presenoldeb yn yr ysgol.

Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd Medi 2013

Dogfen ganllawiau rhif: 116/2013

<sup>4</sup> [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy)

<sup>5</sup> Cafodd yr adran hon ei chynnwys yn Ndeddf Addysg 1996 trwy adran 4 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006

## **Plant sy'n derbyn gofal**

Mae plant sy'n derbyn gofal gan ALLau mewn perygl arbennig o fod â lefelau cyrhaeddiad isel yn yr ysgol. Dylai ysgolion fod yn arbennig o sensitif i faterion sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal. Dylai ysgolion geisio defnyddio pob ffordd ymarferol o gadw'r dysgwr yn yr ysgol a dylai ofyn am gyngor yr ALL a chyngor proffesiynol arall fel y bo'n briodol. Ym mhob achos dylai adrannau gwasanaethu plant ALL fod yn gweithio gyda'r ysgol cyn gynted â phosibl.

## Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb

### Rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol

Mae ALLau yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun ac am erlyniadau ac felly rhaid paratoi cod ymddygiad (gweler 'Codau ymddygiad lleol' ar dudalen 13 ac 'Atodiad A') i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu a'i weithredu'n llyfn a'i fod yn cael ei weithredu'n gyson ar draws ardal yr ALL. I wneud hyn, bydd angen i ALLau ddiffinio'r meini prawf ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb. Bydd angen i ALLau sicrhau bod digon o dystiolaeth ar gael i fwrw ymlaen i erlyn yn llwyddiannus os na chaiff hysbysiad ei dalu, e.e. data o gofrestr ysgol.

Yn niffyg unrhyw gytundeb arall, caniateir i ALLau gyflwyno hysbysiadau cosb yn unig i ddisgybl sydd wedi cofrestru mewn ysgol yn ardal yr ALL hwnnw, neu yn achos disgybl sydd heb gofrestru, sy'n byw yn eu hardal neu y mae'r ALL wedi trefnu darpariaeth o fath arall iddo ef neu hi. Caniateir i ALL gyflwyno hysbysiadau cosb yn unig i ddisgybl sydd wedi cofrestru mewn ysgol mewn ardal ALL arall neu, yn achos disgybl sydd heb gofrestru, y mae ALL arall wedi trefnu darpariaeth o fath arall iddo ef neu hi os oes cytundeb i'r perwyl hwnnw gyda'r ALL arall.

Yn sgil ymgynghori â'u hysgolion a'r heddlu, gall ALLau gyfyngu ar bwerau cyflwyno cosbau i'r awdurdod yn unig, os ydynt yn dymuno fel rhan o'u cod ymddygiad.

**Gweithredu:** Bydd disgwyl i ALLau fod wedi sefydlu cod ymddygiad erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2013/14. Wrth gwrs, gellir ei gyflwyno'n gynharach.

### Rolau a chyfrifoldebau ysgolion

Mae penaethiaid wedi eu grymuso i gyflwyno hysbysiadau cosb ac awdurdodi eu dirprwy a'u pennaeth cynorthwyol i wneud hynny. Caniateir iddynt gyflwyno hysbysiadau cosb yn unig i rieni/gofalwyr yng nghyswllt presenoldeb afreolaidd plentyn sydd wedi ei gofrestru yn eu hysgol.

Dylai penaethiaid sy'n awyddus i gyflwyno, neu awdurdodi eu staff i gyflwyno hysbysiadau cosb, drafod hyn yn gyntaf gyda'u corff llywodraethu. Mae'n arfer da cynnwys defnyddio hysbysiadau cosb ym mholisiau presenoldeb ac ymddygiad yr ysgol.

Rhaid i benaethiaid a dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol gydymffurfio â'r cod ymddygiad lleol a gyhoeddwyd gan eu ALL wrth gyflwyno hysbysiadau cosb a rhoi copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynir i'r ALL.

**Gweithredu:** Bydd disgwyl i ysgolion fod wedi diweddarau eu polisiau presenoldeb ac ymddygiad ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2014/15. Eto, gellir cyflwyno hyn yn gynharach mewn ysgolion os dymunir.

## **Rolau a chyfrifoldebau'r heddlu**

Mae'r heddlu wedi eu grymuso i gyflwyno hysbysiadau cosb.

Rhaid i'r heddlu gydymffurfio â'r cod ymddygiad lleol a gyhoeddwyd gan yr ALL perthnasol wrth gyflwyno hysbysiadau cosb a rhoi copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynir i'r ALL.

## **Codau ymddygiad lleol**

I sicrhau bod pwerau'n cael eu defnyddio'n gyson rhaid datblygu cod ymddygiad lleol. Pwrpas y cod ymddygiad lleol yw sicrhau bod y pwerau'n cael eu defnyddio'n gyson a theg ar draws ardal y consortiwm neu'r ALL a bod trefniadau addas ar waith ar gyfer gweinyddu'r cynllun. Dylai codau lleol gynnwys datganiad i'r perwyl hwn.

I hybu cysondeb pellach a lleihau unrhyw ddyblygu, efallai bydd ALLau yn dymuno datblygu cod ymddygiad ar lefel consortiwm.

Rhaid i unrhyw un sy'n cyflwyno hysbysiad cosb wneud hynny o fewn telerau'r cod lleol.

**Gweithredu:** Cyfrifoldeb pob ALL yw llunio cod ymddygiad ar ôl ymgynghori fel yr amlinellir yn Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013.

Mae'r cod ymddygiad lleol yn allweddol i ddefnyddio hysbysiadau cosb yn llwyddiannus. Mae'n sicrhau cysondeb, tegwch a thryloywder yn y ffordd y defnyddir hysbysiadau cosb ac mae'n caniatáu i'r consortia ac ALLau reoli'r system a'i theilwra ar sail eu hanghenion a'u hadnoddau lleol. Mae'r rheoliadau'n nodi'n fanwl bod yn rhaid i'r cod lleol gynnwys:

- dull i osgoi dyblygu hysbysiadau a sicrhau nad yw hysbysiadau'n cael eu cyflwyno pan fo proses o erlyn y drosedd benodol honno'n cael ei chynllunio neu ar y gweill. Un ffordd o gyflawni hyn fyddai i ALLau gyfyngu ar y rhai sy'n gallu cyflwyno hysbysiadau i un adran yn unig, e.e. Gwasanaeth Lles Addysg. Byddai hyn hefyd yn fodd i benaethiaid reoli'r berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref yn effeithiol
- pryd y bydd yn briodol cyflwyno hysbysiad cosb am drosedd. Yn achos triwantiaeth, rhaid i hyn gynnwys lefel yr absenoldeb anawdurdodedig sy'n angenrheidiol i sbarduno hysbysiad cosb. Wrth ystyried y ffactor sbarduno hwn, dylai ALLau ystyried lefel yr absenoldeb anawdurdodedig y bydd yn fodlon ac yn abl i erlyn am drosedd presenoldeb afreolaidd oherwydd bydd yr ALL fel arfer yn dilyn y cam hwn pan na chaiff hysbysiad cosb ei dalu. Gellir cynnwys meini prawf eraill hefyd
- y nifer uchaf o hysbysiadau cosb y gellir eu cyflwyno i un rhiant/gofalwr mewn unrhyw gyfnod o 12 mis
- trefniadau ar gyfer cydlynu rhwng yr ALL a'i bartneriaid lleol.

Er na ddarperir yn benodol ar ei gyfer yn y rheoliadau, gallai'r cod gynnwys unrhyw feini prawf y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer awdurdodi neu beidio ag awdurdodi absenoldeb (er na ddylai penaethiaid gyfyngu ar eu disgresiwn).

Mae'n arfer da i ALL gyhoeddi cynnwys codau lleol, e.e. trwy eu cynnwys mewn polisiau presenoldeb ysgol neu unrhyw bolisiau o eiddo'r ALL.

Yn 'Atodiad A' ceir enghraifft o gynnwys a chynllun cod ymddygiad lleol. Ni ddylid cymryd yr enghraifft hon fel un gyflawn. Y bwriad yw dangos rhai o'r materion y dylai ALLau eu hystyried wrth lunio eu codau lleol.



## Cyflwyno hysbysiadau cosb

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer gweithredu cynlluniau hysbysiadau cosb.

### **Pwy sy'n gallu cyflwyno hysbysiad cosb?**

Mae'r darpariaethau'n galluogi i'r canlynol gyflwyno hysbysiadau cosb, er nad oes gofyniad iddynt wneud hynny:

- staff awdurdodedig ALL, e.e. staff Gwasanaeth Lles Addysg
- penaethiaid a staff ysgol a awdurdodwyd ganddynt (wedi eu cyfyngu gan y rheoliadau i ddirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol)
- heddlu.

### **Pwy sy'n gallu derbyn hysbysiad cosb?**

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i rieni/gofalwyr plant sydd o oedran ysgol gorfodol sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol a gynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) a'r rhai sy'n mynychu darpariaeth o fath arall.

Fel gydag erlyniadau o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996, gellir cyflwyno hysbysiad cosb i bob rhiant/gofalwr sy'n atebol am y drosedd neu droseddau.

### **Hysbysu'r rhiant/gofalwr yn ffurfiol**

Ar ddechrau'r gwaith achos gan yr ysgol neu'r ALL dylid rhoi hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol i'r rhiant/gofalwr yn esbonio'r camau y gellir eu cymryd. Mae'n arfer da sicrhau bod y rhiant/gofalwr yn deall y canlyniadau os na fydd yn sicrhau presenoldeb rheolaidd ei blentyn, yn benodol, y gallai'r achos arwain at gosb a/neu erlyn. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau gellir cyflwyno hysbysiad cosb heb unrhyw hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol.

Os yw'n bosibl, mae'n arfer da rhybuddio'r rhiant/gofalwr neu'r rhieni/gofalwyr o'r posibilrwydd o gyflwyno hysbysiad a chaniatáu 15 diwrnod ysgol i'r rhiant/gofalwr wella'r sefyllfa cyn cyflwyno hysbysiad neu gychwyn gweithrediadau.

Weithiau gallai'r rhagolygon o gael cosb neu eu herlyn arwain at welliant sylweddol ym mhresenoldeb y disgybl ac efallai na fydd angen hysbysiad cosb neu weithrediadau llys os credir y bydd y gwelliant yn cael ei gynnal.

### **Amgylchiadau lle gellir cyflwyno hysbysiad cosb**

Wrth ystyried a yw'r amodau angenrheidiol ar gyfer hysbysiad cosb yn cael eu cyflawni, dylai ALLau a chyrff llywodraethu ysgol roi sylw i'r holl ddyletswyddau statudol.

Y brif ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad cosb ai peidio am driwantiaeth yw p'un ai y gall fod yn effeithiol i helpu i gael y disgybl sy'n chwarae triwant yn ôl i'r ysgol neu ddarpariaeth o fath arall.

Mae hysbysiad cosb yn ymyrraeth addas mewn amgylchiadau pan fernir bod rhiant/gofalwr yn abl i sicrhau lleoliad neu bresenoldeb rheolaidd y plentyn ond nad yw'n fodlon ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wneud hynny, er enghraifft os yw'r rhiant/gofalwr:

- wedi methu ag ymgysylltu ag unrhyw fesurau gwirfoddol neu gefnogol a gynigir
- wedi methu â gwneud trefniadau digonol ynglŷn â ble mae eu plentyn.

Yr ymateb arferol i drosedd gyntaf fyddai rhybudd yn hytrach na chosb. Fodd bynnag, mae disgrisiwn gan swyddogion awdurdodedig i gyflwyno hysbysiad cosb am drosedd gyntaf mewn amgylchiadau lle mae'r bai'n benodol ar ymddygiad y rhiant/gofalwr. Er enghraifft os oedd absenoldeb anawdurdodedig am gyfnod estynedig ac wedi ei amddiffyn gan y rhiant/gofalwr, er enghraifft bod y rhiant/gofalwr wedi dewis mynd â'u plentyn ar wyliau yn ystod y tymor ysgol heb i hynny gael ei awdurdodi.

Dylai ALLau gymryd gofal mawr i sicrhau bod hysbysiadau'n cael eu cyflwyno'n briodol a'u cyflwyno'n unig os yw'r ALL yn fodlon ac yn abl i erlyn. Dan amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig y dylid diddymu unrhyw hysbysiad cosb. Mater i'r ALLau yw nodi yn eu cod ymddygiad lleol, uwchben pa lefel o absenoldeb anawdurdodedig y gellir cyflwyno hysbysiad cosb (gan ystyried y lefel absenoldeb anawdurdodedig y byddent yn fodlon ac yn abl i erlyn ar gyfer y drosedd o bresenoldeb afreolaidd).

Mater i'r rhiant/gofalwr fydd profi cyfiawnhad rhesymol. Bydd cyfiawnhad sy'n gallu bod yn rhesymol yn dibynnu ar ffeithiau a thystiolaeth; mae'n annhebygol y bydd unrhyw gyfiawnhad yn rhesymol oni bai bod ffeithiau i'w gefnogi.

Ni ddylai ALLau ddod i'r casgliad bod ambell gyfiawnhad yn afresymol yn awtomatig. Mae rhai, fel achos meddygol brys yn debygol o fod yn symlach: bydd cofnodion ysbyty, tystysgrif meddyg ac ati yn helpu wrth ystyried achos unigol. Dylid ystyried pob achos ar sail ei deilyngdod ei hun a chymryd pob tystiolaeth berthnasol i ystyriaeth.

Ni ddylid cymryd y canllawiau hyn fel rhai cyflawn; eu bwriad yw dangos rhai o'r materion y dylai awdurdodau eu hystyried wrth lunio eu codau lleol. Yn y pendraw mater i'r llys fydd penderfynu a oes 'cyfiawnhad rhesymol' wedi ei brofi gan y rhiant/gofalwr.

Mae enghreifftiau penodol a ddefnyddir mewn codau ymddygiad ar gyfer ALLau yn Lloegr i'w gweld yn 'Atodiad C'. Dylai ALLau ac ysgolion ystyried pob disgybl ac achos ar sail unigol ac asesu lefel y cymorth a'r ymyrraeth sydd ei angen cyn penderfynu ar y strategaeth fwyaf addas i wella presenoldeb disgybl unigol.

### **Unwaith y bydd hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno**

Ni ellir erlyn y rhiant/gofalwr am y drosedd benodol y cyflwynwyd hysbysiad yn ei chylch nes bod dyddiad olaf y taliad wedi mynd heibio (42 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad) ac ni ellir ei erlyn am y drosedd honno os yw'n talu cosb yn unol â'r hysbysiad.

Y gosb yw £60 os caiff ei thalu o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, ac mae'n codi i £120 os caiff ei thalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad (os anfonwyd hysbysiad gyda phost dosbarth cyntaf cymerir y bydd wedi ei dderbyn yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl ei bostio gyda phost dosbarth cyntaf oni bai y dangosir fel arall – felly byddai'r 28 diwrnod yn dechrau ar yr ail ddiwrnod gwaith). Os na chaiff y gosb ei thalu'n llawn erbyn diwedd y cyfnod 42 diwrnod, rhaid i'r ALL naill ai erlyn y rhiant/gofalwr am y drosedd y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddi neu ddiddymu'r hysbysiad.

Caiff y rhiant/gofalwr ei erlyn am y drosedd y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddi yn hytrach nag am beidio â thalu'r hysbysiad. Yn achos triwantiaeth os bydd achos o erlyn, bydd yn dilyn y gweithdrefnau arferol o erlyn am bresenoldeb afreolaidd (yn cynnwys ystyried gorchymyn goruchwylio addysg fel dewis amgen, neu yn ychwanegol at erlyn). Yr ALL fydd yn erlyn am bresenoldeb afreolaidd o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Ni chaniateir diddymu hysbysiad cosb oni bai:

- na ddylid fod wedi'i gyflwyno yn y lle cyntaf, h.y. pan fo wedi'i gyflwyno oddi allan i amodau'r cod ymddygiad lleol neu os nad oes trosedd wedi'i chyflawni
- ei fod wedi ei gyflwyno i'r unigolyn anghywir
- os yw'n cynnwys gwallau sylweddol.

### **Gweinyddu'r cynllun hysbysiadau cosb**

Mae gwybodaeth ynglŷn â sut mae'n rhaid i gynlluniau hysbysiadau cosb weithredu wedi ei hamlinellu yn Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013. Ceir pro forma enghreifftiol o hysbysiad cosb yn 'Atodiad B'. Mae ALLau yn gyfrifol am lunio pro forma hysbysiad cosb a'i ddsbarthu i'r rhai sy'n eu cyflwyno.

Yr ALL sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun yn gyffredinol. Caiff wneud trefniadau o'r fath am weithredu'r cynllun, nas darperir ar eu cyfer yn y canllawiau hyn neu yn y rheoliadau cysylltiedig, fel y gwêl yn addas.

### **Cadw derbyniadau a chasglu refeniw**

Yn ôl y rheoliadau, caiff yr ALL gadw refeniw o'r cynllun hysbysiadau cosb i dalu costau cyflwyno neu orfodi hysbysiadau, neu'r gost o erlyn y rhai sy'n derbyn yr hysbysiadau os nad ydynt yn talu. Mae refeniw'n daladwy i'r ALL yng nghyswllt disgyblion sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol yn eu hardal, neu yn achos disgybl heb ei gofrestru, y maent wedi trefnu darpariaeth arall iddo neu iddi.

Dylai'r ALL ddarparu cyfriflen archwilydd fel rhan o'r gweithdrefnau archwilio arferol sy'n dangos nad yw'r incwm sydd wedi ei dderbyn o'r hysbysiadau cosb yn uwch na chosb gorfodaeth fel y diffinnir uchod. Rhaid cyflwyno unrhyw arian sy'n weddill i Gronfa Gyfunol Cymru.

Dylai ALLau ystyried y posibilrwydd o wneud trefniadau gyda rhan arall o'r ALL sydd eisoes yn ymwneud â chasglu refeniw er mwyn gweinyddu'r gwaith o gasglu derbyniadau o hysbysiadau cosb. Bydd hyn yn osgoi gorfod sefydlu systemau a gweithdrefnau newydd ac yn caniatáu rhai arbedion maint.

## **Hysbysiadau cosb fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol**

Trwy dalu hysbysiad cosb ni fydd rhiant/gofalwr yn cael ei erlyn am drosedd y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddi. Mae hyn yn golygu na all y ffaith bod hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno a'i dalu na phatrwm absenoldeb anawdurdodedig y mae hysbysiad a dalwyd yn berthnasol iddo, gael ei gyflwyno fel tystiolaeth wrth erlyn am unrhyw achos dilynol o driwantiaeth. Fodd bynnag, mae adrannau 98 i 101 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cyfeirio at hysbysiadau cosb o fewn y diffiniad o gymeriad drwg yn y ddeddfwriaeth honno. Felly gellir cyflwyno tystiolaeth o gyflwyno hysbysiad cosb a dalwyd os yw unrhyw amodau perthnasol yn adrannau 101 i 106 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cael eu bodloni. Er enghraifft:

- os cytunwyd arno gan bob parti
- os oes angen croesddweud argraff ffug a roddwyd gan y diffynnydd
- os yw'r diffynnydd yn ymosod ar gymeriad unigolyn arall.

Os na chaiff cosb ei thalu, caiff ALLau ddefnyddio'r ffaith bod hysbysiad wedi ei gyflwyno a heb ei dalu fel tystiolaeth mewn erlyniad dilynol. Gellir defnyddio absenoldeb anawdurdodedig y cyflwynwyd hysbysiad na thalwyd ar ei gyfer fel tystiolaeth wrth erlyn yn y ffordd arferol.

## Atodiad A: Cod ymddygiad lleol

### [Enw'r awdurdod lleol]

### Cod ymddygiad

### Hysbysiad cosb benodedig am golli'r ysgol yn rheolaidd

### [Dyddiad cyflwyno]

#### 1. Sail a rhesymeg gyfreithiol

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon disgyblion yn yr ysgol yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol er mwyn i ddisgyblion wneud y mwyaf o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Yn gyfreithiol, mae trosedd yn cael ei chyflawni os yw rhiant/gofalwr yn methu â sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol ac nad yw'r absenoldeb wedi ei awdurdodi gan yr ysgol.

Yn ôl adrannau 444A ac adran 444B o Ddeddf Addysg 1996 gellir ymdrin â rhai achosion o absenoldeb anawdurdodedig trwy gyflwyno hysbysiad cosb. Mae hysbysiad cosb yn ddirwy o hyd at £120 a chaiff ei gyflwyno i riant/gofalwr plentyn sy'n colli'r ysgol yn rheolaidd.

Rhaid i'r drefn o gyflwyno hysbysiadau cosb gydymffurfio â holl ofynion Deddf Hawliau Dynol a deddfwriaeth cyfle cyfartal.

**[Enw'r awdurdod]** sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu'r protocol y bydd yr holl bartneriaid a enwir yn Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn gweithredu o'i mewn ac mae **[Gwasanaeth Lles Addysg]** yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn yr ALL.

Bydd **[Gwasanaeth Lles Addysg]** **[Enw'r awdurdod]** yn parhau i ymchwilio i achosion o bresenoldeb afreolaidd o'r ysgol ac yn dilyn gwaith achos priodol, bydd yn cychwyn camau cyfreithiol os yw'n briodol. Fodd bynnag, mae hysbysiadau cosb yn ddull ymyrraeth cyflym y bydd **[enw'r awdurdod]** yn ei ddefnyddio i ymdrin â materion yn ymwneud â cholli'r ysgol yn rheolaidd cyn iddynt ymwreiddio.

Bydd y drefn o gyflwyno hysbysiadau cosb yn seiliedig ar feini prawf trothwy clir y bydd angen eu defnyddio'n gyson ac yn deg ar draws **[enw'r awdurdod]**. Rhaid i unrhyw un sydd wedi ei awdurdodi i gyflwyno hysbysiad yn **[enw'r awdurdod]** gydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn y cod ymddygiad hwn.

Mae rhieni/gofalwyr a disgyblion yn cael eu cynorthwyo ar lefel ysgol ac awdurdod lleol (ALI) i oresgyn rhwystrau sy'n atal presenoldeb rheolaidd trwy ystod eang o strategaethau asesu ac ymyrraeth. Dylid defnyddio sancsiynau'n unig os yw cydweithrediad o du'r rhieni/gofalwyr naill ai'n absennol neu'n annigonol ar gyfer datrys y broblem.

Mae'r sancsiwn hwn yn fodd o orfodi presenoldeb pan fo disgwyl rhesymol y bydd ei ddefnyddio'n sicrhau gwelliant.

## 2. Ystyriaethau cyfreithiol ymarferol

Mae hysbysiad cosb yn £60 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, ac mae'n codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad. Os na chaiff y gosb ei thalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod rhaid i'r ALI naill ai erlyn y rhiant am y drosedd neu ddiddymu'r hysbysiad.

Caiff rhiant ei erlyn am y drosedd o fethu â sicrhau presenoldeb yn yr ysgol, ac nid am beidio â thalu'r ddirwy. Fe'i gwneir o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Dan amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig y dylid diddymu unrhyw hysbysiad cosb fel yr amlinellir yn y cod ymddygiad hwn.

## 3. Pwy sy'n gallu cyflwyno hysbysiad cosb

Caniateir cyflwyno hysbysiad cosb yn unig gan **[gweler yr opsiynau yn y canllawiau]**.

Mae disgrisiwn gan swyddog awdurdodedig wrth benderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad cosb ai peidio i un neu fwy o rieni/gofalwyr plentyn. Yr amgylchiadau penodol ym mhob achos unigol fydd y ffactor dylanwadol wrth benderfynu.

## 4. Amgylchiadau ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb

Dim ond mewn achosion o absenoldeb anawdurdodedig y caniateir cyflwyno hysbysiad cosb.

Bydd defnyddio hysbysiadau cosb wedi ei gyfyngu i **[rhowch opsiwn perthnasol]**.

Caniateir cyflwyno hysbysiadau cosb ar gyfer mwy nag un plentyn mewn achosion lle mae lefel presenoldeb gwael gan fwy nag un disgybl mewn teulu.

Gellid ystyried bod hysbysiadau cosb yn briodol yn yr amgylchiadau canlynol:

- triwantiaeth
- cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd (ar ôl cau'r gofrestr a chreu absenoldeb anawdurdodedig).

**[Nid yw'n rhestr gyflawn – edrychwch ar y canllawiau wrth ddrafftio Cod ymddygiad.]**

## **5. Y weithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb benodedig**

**[Gwasanaeth Lles Addysg] [enw'r awdurdod]** mewn ymgynghoriad ag ysgolion, fydd yn gyfrifol am benderfynu ynghylch cyflwyno hysbysiadau cosb. Bydd hyn yn sicrhau:

- darpariaeth gyson
- bod y berthynas rhwng ysgolion a rhieni/gofalwyr yn cael ei chynnal
- cydlynu â sancsiynau gorfodi eraill
- cydlynu rhwng asiantaethau.

Mae ysgolion, yr heddlu ac ALLau cyfagos yn gallu gofyn am gyflwyno hysbysiad.

Anfonir hysbysiadau cosb trwy'r post yn unig.

Bydd **[Gwasanaeth Lles Addysg] [enw'r awdurdod]** yn ymateb i bob cais i gyflwyno hysbysiad cosb o fewn **[10–14]** diwrnod ysgol o'i dderbyn ac os yw'r holl wybodaeth berthnasol wedi ei chyflenwi.

## **6. Talu hysbysiad cosb**

Bydd gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer talu ar yr hysbysiad cosb.

Trwy dalu'r hysbysiad ni fydd y rhiant/goflawr yn cael ei erlyn am y cyfnod dan sylw ac ni ellir ei erlyn wedi hynny o dan bwerau gorfodi eraill am y cyfnod dan sylw yn yr hysbysiad.

Mae **[enw'r awdurdod]** yn cadw unrhyw refeniw o unrhyw hysbysiad cosb i dalu costau gorfodi. Mae'n annhebygol y bydd refeniw'n uwch na chostau gorfodi. Fodd bynnag, rhaid rhoi unrhyw arian dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru.



## 7. Peidio â thalu hysbysiad cosb

Bydd peidio â thalu hysbysiad cosb yn symbylu gweithdrefnau erlyn o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

## 8. Diddymu hysbysiad cosb

Nid oes hawl apelio statudol yn erbyn cyflwyno hysbysiad cosb.

Unwaith y mae hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno caniateir i **[enw'r awdurdod]** ei ddiddymu ble:

- bod tystiolaeth ar gael bod yr hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno i'r unigolyn anghywir
- na ddylid fod wedi'i gyflwyno yn y lle cyntaf, h.y. pan fo wedi'i gyflwyno oddi allan i amodau'r cod ymddygiad lleol neu os nad oes trosedd wedi'i chyflawni.

Os yw hysbysiad cosb wedi ei ddiddymu'n unol â'r uchod, roddir hysbysiad o hynny i'r sawl a'i derbyniodd a chaiff unrhyw swm a dalwyd fel cosb yn unol â'r hysbysiad hwnnw ei ad-dalu i'r unigolyn a'i talodd. Ni fydd unrhyw weithrediadau'n parhau nac yn cael eu sefydlu yn erbyn y sawl oedd yn destun y drosedd mewn cysylltiad â'r hysbysiad a ddiddymwyd nac am drosedd o dan adran 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996 yn deillio o'r un amgylchiadau.

## 9. Polisi a chyhoeddusrwydd

Dylai holl bolisiau presenoldeb yr ysgol gynnwys gwybodaeth am gyflwyno hysbysiau cosb. Dylid dwyn hyn i sylw rhieni/gofalwyr.

## 10. Adolygu ac adrodd yn flynyddol

Bydd **[Gwasanaeth Lles Ysgolion] [enw'r awdurdod]** yn monitro'r defnydd o hysbysiau cosb fel rhan o broses sicrwydd ansawdd. Bydd data hefyd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gais.

Adolygir y cod ymddygiad hwn yn flynyddol a gallai gael ei ddiwygio yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad y flwyddyn flaenorol.

## 11. Sut i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am weithredu'r cod ymddygiad hwn a'r hysbysiau cosb o fewn **[enw'r awdurdod]** ar gael o:

### **[Cyfeiriad a manylion cyswllt yr awdurdod]**

## Atodiad B: Pro-forma hysbysiad cosb

### Hysbysiad cosb

#### Adran 444A o Ddeddf Addysg 1996

Darllenwch y nodiadau trosodd yn ofalus.

#### Rhan 1

**[Os yw plentyn o oedran ysgol gorfodol sydd wedi ei gofrestru mewn ysgol yn colli'r ysgol yn rheolaidd, neu'n amhresennol yn rheolaidd mewn darpariaeth o fath arall, mae rhiant/gofalwr y plentyn yn euog o drosedd o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.]**

I: **[Teitl]**

**[Enw blaen]**

**[Cyfenw]**

O: **[Cyfeiriad]**

**[Cod post]**

Rydych yn rhiant/gofalwr i **[enw a chyfeiriad y plentyn]** (fe'i gelwir "y disgybl" yn yr hysbysiad hwn) sydd **[yn ddisgybl cofrestredig yn [enw'r ysgol] ac mae wedi ei gyfeirio i fynychu darpariaeth o fath arall]/[heb ei gofrestru mewn ysgol ond y mae'r ALL wedi gwneud trefniadau iddo neu iddi fynychu darpariaeth addysgol o fath arall].**

Ar **[dyddiad][dyddiadau]**/rhwng **[dyddiad]** a **[dyddiad]** bu i'r disgybl golli'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i chi dalu dirwy yn hytrach na chael eich erlyn am y drosedd y cyfeirir ati uchod. Swm y gosb yw £60. Os byddwch yn talu'r gosb hon o fewn y cyfyngiadau amser a ddangosir isod, ni fydd unrhyw gamau pellach yn eich erbyn mewn cysylltiad â'r drosedd fel y nodir yn yr hysbysiad hwn.

Dylid talu o fewn 28 diwrnod. Os byddwch yn talu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod yna mae'r **gosb yn dyblu** i £120. Dylid cyfeirio'r taliad i **[enw a chyfeiriad yr ALL ar gyfer y taliad]** a gallwch ei dalu'n bersonol yn **[y cyfeiriad hwnnw]** rhwng **[oriau agor y swyddfa]**, neu trwy bostio'r hysbysiad hwn gyda siec neu archeb bost i'r **[cyfeiriad hwnnw]**.

Canllawiau ar gyfer  
hysbysiadau cosb am  
golli'r ysgol yn rheolaidd  
Medi 2013

Dogfen ganllawiau  
rhif: 116/2013

Ni dderbynnir taliadau hwyr neu ran daliadau. Ni anfonir unrhyw lythyrau atgoffa.

**Os na chaiff y taliad ei dderbyn erbyn [rhowch y dyddiad 42 diwrnod o'r dyddiad cyflwyno], byddwch yn cael eich erlyn am y drosedd a gallech gael dirwy o hyd at [£2,500] [£1,000].**

Cyflwynir yr hysbysiad hwn gan [enw] [manylion swyddogol] o [cyfeiriad/cyflogwr] [o fewn enw'r ALI].

**Dyddiad cyflwyno:** .....

## Rhan 2

Dylech gwblhau'r canlynol ac anfon yr hysbysiad hwn yn ôl gyda'ch taliad at **[rhowch gyfeiriad yr ALI]**:

**Enw:** .....

**Cyfeiriad:** .....

Rwy'n amgáu taliad am swm o £ .....

**Arwyddwyd:** .....

**Dyddiad:** .....

## Nodiadau

### 1. Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am yr hysbysiad hwn, cysylltwch â [enw'r ALI] yn **[rhowch deitl y swydd a'r adran gyswllt, rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad]**.

### 2. Swm y gosb

Mae swm y gosb fel a ganlyn.

- Os caiff ei thalu o fewn 28 diwrnod: £60.
- Os caiff ei thalu o fewn 42 diwrnod: £120.

### 3. Cod ymddygiad

Cyflwynir yr hysbysiad hwn yn unol â chod ymddygiad lleol a luniwyd gan [enw'r ALI]. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiwn neu ohebiaeth am y cod at **[enw'r adran yn yr ALI]** i **[cyfeiriad a rhif ffôn]**.

#### 4. Diddymu

Gall **[enw'r ALL]** ddiddymu'r hysbysiad hwn os gellir dangos na ddylid bod wedi ei gyflwyno i chi neu os nad yw wedi ei gyflwyno'n unol â'r cod ymddygiad lleol. Os ydych yn credu bod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno'n anghywir i chi rhaid i chi gysylltu â **[enw'r ALL]** cyn gynted â phosibl er mwyn ei ddiddymu, gan ddweud pam yr ydych yn credu bod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno'n anghywir. Bydd **[enw'r ALL]** yn ystyried eich cais ac yn cysylltu â chi i roi gwybod a yw'r hysbysiad wedi ei diddymu ai peidio. Os na ddiddymwyd yr hysbysiad ac os na fyddwch yn talu, byddwch yn agored i gael eich erlyn am y drosedd.

#### 5. Talu

Dylech gwblhau'r hysbysiad uchod a'i anfon neu fynd ag ef i'r ALL i'r cyfeiriad a roddir. **[rhowch oriau agor y swyddfeydd ac ati.]**

#### 6. Erlyn

Os na fyddwch yn talu'r gosb, ac os na chaiff yr hysbysiad ei ddiddymu, byddwch yn cael eich erlyn am y drosedd o **[fethu â sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd]**. Byddwch yn derbyn gŵys ar wahân am hyn a fydd yn nodi amser a dyddiad y gwrandawriad llys. Byddwch yn gallu amddiffyn eich hun ac fe'ch cynghorir i gael cynrychiolaeth gyfreithiol; mewn rhai amgylchiadau bydd hawl gennych i gael cymorth/cyngor cyfreithiol a ariennir gydag arian cyhoeddus.

## Atodiad C: Enghreifftiau penodol y mae awdurdodau lleol yn Lloegr wedi eu defnyddio mewn codau ymddygiad lle gallai hysbysiadau cosb gael eu cyflwyno

Dim ond mewn achosion o absenoldeb anawdurdodedig y caniateir cyflwyno hysbysiad cosb.

Dylai hysbysiadau gael eu cyflwyno'n unig am droseddau y mae'r ALL yn abl ac yn fodlon eu herlyn. Dylai'r ALL fod yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol i ddangos bod rhiant/gofalwr wedi cyflawni trosedd o dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996.

Dylai ALLau ac ysgolion ystyried pob disgybl ac achos ar sail unigol ac asesu lefel y cymorth a'r ymyrraeth sydd ei hangen cyn penderfynu ar y strategaeth fwyaf addas ar gyfer gwella lefel presenoldeb disgybl unigol.

Er nad yw'r canlynol yn rhestr gynhwysfawr, byddid yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno hysbysiad o dan yr amgylchiadau a ganlyn.

- Mae plentyn wedi'i gyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg ac mae gwaith achos yn mynd rhagddo ond nid yw'r rhieni/gofalwyr yn cynorthwyo ymdrechion yr ysgol na'r Gwasanaeth Lles Addysg i gynyddu presenoldeb a phan nad oes unrhyw sancsiynau cyfreithiol eraill ar y gweill.
- Pan fo methiant parhaus ar ran y rhieni/gofalwyr i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol a bod presenoldeb yn is na **[chanran benodol a gytunir o fewn yr awdurdod]** am gyfnod penodedig heb unrhyw reswm derbyniol a phan nad oes unrhyw sancsiynau cyfreithiol eraill ar y gweill.
- Pan fo presenoldeb yn syrthio yn is na **[chanran benodol a gytunir o fewn yr awdurdod]** am gyfnod penodedig heb gyfiawnhad a diffyg presenoldeb ar ran y rhieni/gofalwyr, ni fyddai erlyn o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 er budd y cyhoedd.
- Pan fo rhieni/gofalwyr yn anfodlon llofnodi contract yn cynnig cymorth a phan fo presenoldeb yn is na lefel derbyniol y cytunwyd arni dros gyfnod penodedig heb gyfiawnhad rhesymol.

- Cymryd amser o'r ysgol yn ystod y tymor heb gytundeb yr ysgol, neu heb roi gwybod i'r ysgol, yn dilyn achos blaenorol o gymryd amser o'r ysgol yn ystod y tymor a phan fo'r rhieni/gofalwyr wedi cael eu rhybuddio y gallai hyn arwain at hysbysiad cosb.
- Gwyliau yn ystod y tymor heb eu cytuno gan yr ysgol pan fo cyfradd academiaidd ar gyfer y plentyn hwnnw eisoes o leiaf **[X%]** yn is na'r targed ar gyfer y flwyddyn academiaidd honno.
- Pan fo disgybl yn gyson hwyr ac yn cyrraedd ar ôl cau'r gofrestr.
- Pan fo plentyn yn dod i sylw'r heddlu'n rheolaidd yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.
- Disgyblion a ganfyddir ar gynlluniau cyrchu triwantiad (bydd hyn ond yn bosibl os yw'r ffeithiau'n wybyddus eisoes, e.e. os oes hanes o absenoldeb cyson gan y plentyn) oni bai bod cyfiawnhad am fod yn absennol o'r ysgol.